ADRODDIAD I'R:	Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
DYDDIAD:	30 Medi 2019
SWYDDOG CYSWLLT:	Richard Jarvis - Swyddog Arweiniol ac Ymgynghorydd Cyfreithiol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru Dawn Hughes – Uwch Swyddog Cefnogi'r Panel Heddlu a Throsedd
TESTUN:	Crynodeb o'r Cwynion a Gafwyd Medi 2018 – Medi 2019

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad yw darparu crynodeb o'r cwynion sydd wedi eu derbyn yn ymwneud â'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Mr. Arfon Jones a'r Dirprwy Gomisiynydd (Ann Griffith) ers y cyfnod adrodd diwethaf.

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae'r Panel Heddlu a Throsedd wedi derbyn 7 cwyn cofnodadwy yn erbyn y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac 1 yn erbyn y Dirprwy Gomisiynydd yn ystod eu cyfnod yn y swydd.

2.2 O'r 8 cwyn a gafwyd, mae pob cwyn wedi'i ddatrys a rhoddwyd gwybod am y canlyniadau yn flaenorol i'r Panel Heddlu a Throsedd.

2.3 Mae'r Panel Heddlu a Throsedd wedi derbyn 2 gŵyn ers y cyfnod adrodd diwethaf, serch hynny, barn y Swyddog Arweiniol yw nad ydynt yn gofnodadwy a'u bod yn camddefnyddio'r gweithdrefnau cwynion a nodir yn y Rheoliadau.

2.4 Er bod gan Banel yr Heddlu a Throsedd y cylch gwaith i ddelio â chwynion yn erbyn y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd yn unig, mae Panel yr Heddlu a Throsedd wedi derbyn 10 cwyn ynghylch Heddlu Gogledd Cymru yn y cyfnod adrodd hwn (Medi 2018 – Medi 2019). Mae'r achwynwyr wedi cael gwybod am y weithdrefn gywir i'w dilyn mewn cysylltiad â'u cwynion.

3. ARGYMHELLIAD(ION)

3.1 Bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn nodi'r adroddiad a'r camau gweithredu a gymerwyd mewn perthynas â'r cwynion a gafwyd.

4. GWYBODAETH GEFNDIROL

4.1 Mae gan Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru gyfrifoldeb statudol o ran trin a phenderfynu ar gwynion penodol a wnaed yn erbyn y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

4.2 Yn dilyn ymgynghoriad gydag Aelodau'r Panel, adolygodd y Panel Heddlu a Throsedd ei Drefn Gwyno ar 12 Ebrill 2018 a dirprwyo cyfrifoldebau statudol y Panel ynglŷn ag ymdrin â rhai cwynion a wnaed yn erbyn y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd i Is-bwyllgor Cwynion fel y caniateir gan y ddeddfwriaeth; mae aelodaeth yr Is-bwyllgor Cwynion yn cynnwys y Cadeirydd, Is-gadeirydd ac un Aelod Etholedig y Panel Heddlu a Throsedd.

4.5 Er bod y Panel wedi ei wahardd yn benodol rhag ymchwilio i'r cwynion yn rhinwedd y darpariaethau statudol, caniateir i'r Panel annog, hwyluso a chynorthwyo i ddatrys cwynion yn anffurfiol. Fel rhan o'r broses hon, gofynnodd y Swyddog Arweiniol am ragor o wybodaeth ac eglurhad gan y Comisiynydd a'i Swyddfa ynghylch y cwynion a dderbyniwyd.

4.7 Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn gyfrifol am ddelio â chwynion ynglŷn â'r Prif Gwnstabl. Caiff cwynion eu cofnodi yn unol â Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 a Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011. Bydd ystadegau yn cael eu cyhoeddi yn flynyddol ac yn chwarterol gan Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu – mae'r ystadegau yn darparu manylion am gyfanswm y cwynion a gafwyd gan bob llu heddlu.

5. YMGYNGHORI

5.1 Ymgynghorwyd â Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd mewn perthynas â'r cwynion a ddaeth i law yn ystod y cyfnod adrodd. Am nad oedd y cwynion a ddaeth i law yn gofnodadwy yna nid oes angen rhagor o ymgynghori gyda'r Is-bwyllgor Cwynion.

6. ADNODDAU

6.1 Er bod y Swyddfa Gartref yn darparu grant i'r Awdurdod Lletyol ar gyfer costau gweinyddol, mae'r gofyniad i ddatrys cwynion nad ydynt yn droseddol yn erbyn Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Dirprwy Gomisiynydd yn cymryd swm anghymesur o amser swyddog.

7. RISG

7.1 Er mwyn cydymffurfio â'r Weithdrefn Gwyno, mae angen crynhoi bob cwyn mewn adroddiad (fel y gellir rhoi gwybod amdanynt yn gyhoeddus) at ddibenion monitro.

8. RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD

8.1 Hysbysu'r Panel Heddlu a Throsedd o nifer y cwynion a ddaw i law yn rheolaidd, fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth.